

Julie James AC/AM
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darren Millar AC
Aelod Cynulliad dros Orllewin Clwyd
Parc Busnes Gogledd Cymru
Abergele
LL22 8LJ
Darren.millar@cynulliad.cymru

8 Ionawr 2020

Annwyl Darren,

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch cais ar 3 Rhagfyr am ddatganiad ar synwryddion carbon monocsid.

Rwy'n falch eich bod yn rhannu fy mhryderon ynghylch diogelwch llety rhent. Bydd Adran 91 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ar ôl iddi gael ei chyflwyno, yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid sicrhau bod eu annedd yn ffit i bobl fyw ynddi. Ar ben hynny, mae Adran 94 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ymwneud â phennu a yw annedd yn ffit i bobl fyw ynddi.

Bydd y rheoliadau hyn yn cynnwys gofynion ychwanegol i landlordiaid osod larymau carbon monocsid, larymau mwg, a chynnal prawf diogelwch trydanol o leiaf bob pum mlynedd. O ran synwryddion carbon monocsid, bydd yn ofynnol i gael o leiaf un mewn ystafell sydd â dyfais llosgi tanwydd nwy, olew neu danwydd solet. Os bydd landlord yn methu â chydymffurfio â'r gofyniad hwnnw, yna ystyrir nad yw'r annedd yn ffit i bobl fyw ynddi, er gwaethaf unrhyw gamau eraill a wnaed gan y landlord.

Rwy wedi ymrwmo i sicrhau manteision y Ddeddf hon, gan gynnwys sicrhau y rhoddir y darpariaethau ynghylch eiddo sy'n addas i bobl fyw ynddo ar waith erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn. Ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar rai gwelliannau i Ddeddf 2016 a fydd yn cael eu cyflwyno fel Bil ar wahân, bydd gweithredu'r Ddeddf yn cynnwys ymestyn y cyfnod hysbysu presennol ar gyfer troi tenant allan heb fai o ddau fis i chwe mis, a gwahardd cyflwyno hysbysiad o'r fath o fewn chwe mis cyntaf o feddiannu eiddo. Roedd y cynigion sy'n ymwneud â'r gwelliannau hyn yn destun ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru (gweler <https://llyw.cymru/ymestyn-y-cyfnod-hysbysu-byrraf-ganiateir-cyn-troi-tenant-allan-heb-fai>).

Yn gywir,

Julie James AC/AM
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.